Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cais am safbwyntiau

# Adolygiad annibynnol o gyflog ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru



Dyddiad cyhoeddi: **18 Ionawr 2018**
Camau i'w cymryd: **Ymatebion erbyn 1 Mawrth 2018**

# Adolygiad annibynnol o gyflog ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn ceisio safbwyntiau ynghylch cyflog ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru.

## Sut i ymateb

Dylech e-bostio/postio eich ymatebion i'r cais hwn am safbwyntiau i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **1 Mawrth 2018** fan hwyraf (rhowch 'Cyflog ac amodau' yn y blwch pwnc).

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae dogfennau'r cais am safbwyntiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Nathan Huish
Uned Strategaeth y Gweithlu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: adolygiadtalacamodauathrawon@llyw.cymru

Ffôn: 03000 253039

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG33810

## Diogelu Data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, yn ogystal ag aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau neu geisiadau am safbwyntiau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod y cais am safbwyntiau wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Cefndir** **2**
**Y cais am safbwyntiau** **4**
**Atodiad: Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2017** **5**

# Cefndir

Mae’r Llywodraeth wedi pennu agenda feiddgar ar gyfer dyfodol ysgolion yn ‘Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl’.

Mae’r agenda hon yn amrywiol ac yn cynnwys diwygio’r cwricwlwm ac arholiadau, gwell hyfforddiant i athrawon, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a Safonau Proffesiynol diwygiedig ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Hefyd ceir pwyslais o’r newydd ar gynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod pobl ifanc yn barod ar gyfer yr oes ddigidol yr ydym yn byw ynddi nawr. Hefyd mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc sy’n byw o dan amgylchiadau heriol yn cael cymorth i wneud cystal â phosib. Nod yr holl ddatblygiadau hyn yw rhoi’r cyfleoedd gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc mewn ysgolion y gall ein cenedl fod yn falch ohonynt, er budd i ni i gyd yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb datganoledig newydd am bennu Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ac mae hwn yn gyfle gwirioneddol i ystyried ffyrdd i’r proffesiwn addysgu gael ei gymell a’i annog.

Mae’r Llywodraeth wedi sefydlu **Adolygiad o Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol**. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan banel a fydd yn cael ei arwain gan yr Athro Mick Waters gyda chefnogaeth panel sy’n cynnwys yr Athro Melanie Jones a Syr Alasdair MacDonald.

Bydd y Panel yn edrych ar gyflog athrawon ac yn ystyried a yw’r strwythurau presennol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid dim ond lefel y cyflog fydd yn cael sylw’r Adolygiad, ond hefyd mwy am y ffyrdd o addasu amodau gwasanaeth er mwyn gwneud y proffesiwn addysgu’n fwy atyniadol, boddhaus a gwerth chweil.

Amcanion system gyflog yn y dyfodol i athrawon fyddai cadw natur statudol bresennol cyflog ac amodau athrawon a hefyd gallu gwneud y canlynol:

- creu strwythur cyflog ac amodau sy’n cyfrannu tuag at broffesiwn addysgu hynod frwd ac sy’n sail i gyflwyno system addysg o ansawdd uchel,

- sefydlu system deg ac agored sy’n sicrhau ac yn cynnal lefelau priodol o dâl ar gyfer y proffesiwn addysgu ac yn gwella statws y proffesiwn, gan ei gwneud yn haws inni ddenu, datblygu a chadw athrawon sydd â ffocws ar ein hamcanion penodol i godi safonau mewn ysgolion yng Nghymru.

- manteisio ar y cyfle i edrych eto ar ddyletswyddau penodol athrawon a chynnig ffyrdd newydd o gynnwys cydnabyddiaeth a chymhelliant yn yr amodau gwaith, i annog athrawon i gyfrannu a datblygu fel gweithwyr proffesiynol yn ysbryd Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl.

- cael cyfle i feddwl o’r newydd am sut mae gwaith athrawon yn cael ei weld a sut gall ein hathrawon anelu at fod y gorau y gallant fod.

Mae’r Panel yn dechrau ar ei waith drwy ofyn am sylwadau, tystiolaeth, awgrymiadau a syniadau.

Mae’r Panel yn disgwyl clywed gan Gymdeithasau Proffesiynol a fydd yn dymuno cynrychioli eu haelodau. Hefyd mae eisiau clywed gan athrawon, yn unigol ac fel rhan o’u

hysgol, gan lywodraethwyr ysgolion a chan gyflogwyr, gwleidyddion, rhieni neu ddisgyblion; unrhyw un sydd â chyfraniad i'w wneud a allai fod o gymorth. Mae hon yn rhan hanfodol o'r broses, a fydd hefyd yn cynnwys ymchwil a chymharu â gwledydd eraill, derbyn tystiolaeth lafar ac ymweld ag ysgolion a chyfarfodydd ledled y wlad.

Anogir arweinwyr ysgolion i dynnu sylw cymuned eu hysgol at yr Adolygiad a galluogi cynnig tystiolaeth, awgrymiadau a syniadau. Gall rhan o gyfarfod staff ganolbwyntio ar y mater. Gallai agenda Corff Llywodraethu gynnwys eitem sy'n rhoi sylw i'r Adolygiad. Gallai llywodraethwyr arolygu safbwyntiau rhieni. Gallai athrawon gynnwys y dysgwyr mewn trafodaeth mewn lleoliadau priodol. Gallai myfyrwyr sy'n cael eu hyfforddi i fod yn athrawon gyfarfod i ystyried yr yrfa sydd o'u blaen. Bydd yr ymatebion yn fan cychwyn pwysig i'r Panel a gadeirir gan yr Athro Waters.

Cofiwch leisio eich barn.

# Y cais am safbwyntiau

## Diben

Diben y Cais hwn am Safbwyntiau yw creu trafodaeth a holi am eich barn.

## Cyfarwyddiadau

Fe'ch gwahoddir i lenwi'r holiadur canlynol. Gallwch ateb rhai, neu bob un, o'r cwestiynau.

Gall unigolyn lenwi'r holiadur neu gellir ei lenwi mewn grŵp.

Nodwch eich safbwyntiau ar gyfer pob cwestiwn rydych chi am ei ateb yn y blwch sydd wedi'i gynnwys. Byddai'n dda pe gallech roi eich rhesymau dros eich atebion, er mwyn helpu'r Panel i ddeall eich safbwyntiau yn llawn. Mae lle ar gael ichi roi gwybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y ddogfen hefyd.

Neilltuwch amser i lenwi'r adran manylion personol ar ddiwedd y ffurflen os gwelwch yn dda. Bydd hynny o gymorth wrth inni ddadansoddi'r cais am safbwyntiau.

Mae'n bosib llenwi'r holiadur yn electronig neu ar gopi papur. Dylid dychwelyd yr holiadur wedi'i lenwi i:

Uned Strategaeth y Gweithlu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**e-bost:** adolygiadtalacamodauathrawon@llyw.cymru

**Dychwelwch eich holiadur wedi'i lenwi erbyn 1 Mawrth 2018 fan bellaf.**

## Atodiad: Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2017

Mae’r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn ddogfen a gyhoeddir yn flynyddol, ac mae’n rhan o gontract pob athro a phennaeth mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ddogfen yn rhwymo pob ysgol a gynhelir a phob awdurdod addysg lleol.

Mae'r Ddogfen yn cynnwys darpariaethau perthnasol i amodau cyflogaeth statudol athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, gyda fersiwn presennol 2017 wedi’i baratoi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, gan ddisgwyl Gorchymyn o dan adran 122 o’r Ddeddf. Mae’r Gorchymyn hwnnw’n cyfeirio at y Ddogfen hon ac yn cyfarwyddo bod ei darpariaethau’n dod i rym yn unol ag ef, o dan adran 124(3) o’r Ddeddf. Y Gorchymyn fydd Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2017.

Gellir gweld copi o’r Ddogfen yma
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/636389/School_teachers__pay_and_conditions_document_2017.pdf